Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Cynlluniau a grant pontio

## Arfarniad o effaith cynlluniau a grant pontio ar bartneriaethau ysgol gynradd ac uwchradd yng nghyfnod allwedd 2 a chyfnod allweddol 3

Iechyd ar Waith
Cyrraedd y nod
The corporate standard
Health at Work
Buddsoddwyr mewn pobl
Investor in People
Safon amgylcheddol y ddraig werdd
Green Dragon Environmental Standard

MAWRTH 2010

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol (ALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymunedol;
- Gwasanaethau addysg awdurdod lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr; a
- Darpariaeth cyflogaeth wedi'i chontractio gan yr adran gwaith a phensiynau yng Nghymru.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2010: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen hon/y cyhoeddiad hwn.**

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| Cynlluniau pontio | 1 |
| Grantiau pontio | 1 |
| Sail dystiolaeth yr adroddiad | 2 |
| **Prif ganfyddiadau** | **3** |
| **Argymhellion** | **5** |
| **Arfarniad o effaith cynlluniau pontio ar ysgolion** | **6** |
| **Arfarniad o effaith y grant pontio** | **11** |
| **Geirfa/cyfeiriadau** | |
| **Ysgolion yr ymwelwyd â nhw** | |
| **Awdurdodau lleol yr ymwelwyd â nhw** | |
| **Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg** | |

## Cyflwyniad

1 Mae'r adroddiad hwn i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn arfarnu pa mor dda y mae awdurdodau lleol a chlystyrau ysgol yn gweithio gyda'i gilydd i wella parhad a dilyniant mewn dysgu ar gyfer disgyblion sy'n symud o gyfnod allweddol 2 mewn ysgolion cynradd i gyfnod allweddol 3 mewn ysgolion uwchradd. Mae clwstwr ysgol yn cynnwys yr ysgolion cynradd a'r ysgol uwchradd y mae eu disgyblion yn trosglwyddo iddi pan fyddant yn 11 oed i barhau â'u haddysg. Mae'r adroddiad hwn yn dilyn yr adroddiad a luniwyd gan Estyn yn 2008 (Effaith Cynlluniau Trosglwyddo), a wnaeth arfarnu effaith gychwynnol cynlluniau pontio a'r defnydd ohonynt gan ysgolion.

**Cynlluniau pontio**

2 Yn 2006, cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad reoliadau a gofynion statudol ar gyfer cynlluniau pontio yn Cylchlythyr 30/2006 Llywodraeth Cynulliad Cymru: 'Canllawiau ar Baratoi Cynlluniau Pontio o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3'. Mae'r Cylchlythyr hwn yn cynnig arweiniad manwl i ysgolion ac awdurdodau lleol ar y gofynion statudol ar gyfer cynlluniau pontio ac arfer dda o ran gwella'r pontio i ddysgwyr pan fyddant yn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd.

3 Cynlluniau pontio yw dull ysgolion uwchradd a'u hysgolion cynradd partner o ffurfioli'u trefniadau ar gyfer cydweithio'n agosach ar y cwricwlwm, ar ddysgu ac ar asesu er mwyn gwella'r pontio i ddysgwyr. Mae'r cynlluniau wedi bod ar waith ers Medi 2007 ac fe'u cymhwyswyd i'r garfan gyntaf a symudodd o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7 ym Medi 2008.

4 I gynorthwyo â datblygu cynlluniau pontio, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhyddhau adnoddau drwy'r Gronfa Ysgolion Gwell i wella parhad a dilyniant rhwng cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3.

5 Barnodd Estyn, yn ei adroddiad yn 2008 ar effaith cynlluniau pontio, bod y set gyntaf o gynlluniau tair blynedd wedi bodloni gofynion Llywodraeth Cynulliad Cymru at ei gilydd, ond roedd ansawdd y cynlluniau'n amrywio'n helaeth. Roedd y cynlluniau gorau'n rhan anhepgor o agenda gwella'r ysgol ac roeddent yn cynnwys canlyniadau mesuradwy i ddysgwyr. Roedd cynlluniau eraill yn canolbwyntio'n ormodol ar brosesau a dim digon ar ganlyniadau mesuradwy.

**Grant pontio**

6 Cyflwynwyd y grant pontio gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2006 i ategu a chynorthwyo â datblygu cynlluniau pontio. Darparwyd y grant o dan Adran 14 Deddf Addysg 2002, ac fe'i rhyddhawyd i awdurdodau lleol yn 2006-2007, ac yn y ddwy flynedd ariannol ganlynol, i ddatblygu modelau arloesol a chynaliadwy o arfer dda i bob ysgol eu mabwysiadu o ran pontio disgyblion o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3.

7 Dywed adroddiad 2008 Estyn bod *'diffyg eglurder a thryloywder ynghylch y cyllid sydd ar gael i ysgolion ar gyfer gweithgareddau pontio'.* Mae rhai awdurdodau lleol wedi gofyn i ysgolion wneud ceisiadau am arian grant pontio ar gyfer prosiectau

arloesol. Mae eraill wedi dosbarthu'r grant i glystyrau o ysgolion i roi cynlluniau pontio ar waith. Dim ond ychydig o awdurdodau lleol sydd â pholisïau ac arferion datblygedig ar gyfer gwella pontio.

8 Mae Canllawiau ar Grant Llywodraeth Cynulliad Cymru i Drosglwyddo rhwng Cyfnodau Allweddol 2 a 3: Cylchlythyr 31/2006, yn rhoi arweiniad ar y meini prawf ar gyfer defnyddio'r grant. Mae telerau'r grant yn gofyn bod awdurdodau lleol yn arfarnu canlyniadau pob prosiect, ac mae eu harfarniadau wedi llywio'r adroddiad hwn.

9 Mae'r adroddiad hwn yn ystyried i ba raddau y mae awdurdodau lleol wedi defnyddio'r grant yn effeithiol er mwyn gweithio gydag ysgolion ar y broses bontio.

**Sail dystiolaeth yr adroddiad**

10 Mae canfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad hwn yn ymelwa ar:

- adroddiadau arolygu ysgolion Estyn o Fedi 2008 i Orffennaf 2009;
- dadansoddiad o gyrhaeddiad disgyblion wrth symud o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3;
- cyfweliadau â swyddogion sy'n gyfrifol am wella ysgolion mewn pum awdurdod lleol;
- ymatebion a gynigiwyd gan awdurdodau lleol drwy gyfrwng holiadur;
- cyfweliadau â chydlynwyr pontio mewn saith clwstwr ysgol gynradd ac uwchradd; a
- chraffu ar ddogfennau perthnasol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ysgolion ac awdurdodau lleol.

## Prif ganfyddiadau

11 Mae arolygiadau ysgol yn 2008–2009 yn dangos bod cynllunio ar gyfer pontio bellach yn nodwedd gadarn o fywyd a gwaith y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd a'u hysgolion cynradd partner. Mewn llawer o glystyrau ysgol, gwnaed cynnydd da wrth helpu disgyblion i bontio o ysgolion cynradd i ysgolion uwchradd. Ffactor allweddol yn y gwelliant hwn fu ymweliadau gan athrawon ag ysgolion eraill er mwyn arsylwi ar addysgu a dysgu, ac i gyflwyno gwersi. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar alinio arfer yr ystafell ddosbarth yn agosach ar draws Flwyddyn 6 a Blwyddyn 7.

12 Mae canlyniadau asesiadau athrawon y Cwricwlwm Cenedlaethol ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 yn dangos bod cyfran uwch o ddisgyblion yn 2009 yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig yn y pynciau craidd o'i chymharu â 2006. Mae trefniadau pontio, gan gynnwys mwy o gyd-gyfarfodydd rheolaidd rhwng athrawon cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 i safoni asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol, yn helpu athrawon uwchradd i gael dealltwriaeth gliriach o alluoedd disgyblion pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol uwchradd ac i adeiladu ar gyrhaeddiad blaenorol disgyblion yn fwy effeithiol. Fodd bynnag, mae ansawdd y trefniadau hyn yn amrywio'n ormodol ar draws grwpiau clwstwr ysgolion i sicrhau cysondeb mewn asesiadau athrawon yn y pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3. Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 5 neu'n uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, a lefel 6 neu'n uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 3, wedi dirywio yn y pynciau craidd ers 2006. Yn gyffredinol, nid yw cynlluniau pontio yn cynnwys digon o strategaethau i alluogi disgyblion mwy galluog i gyflawni'r lefelau uwch hyn.

13 Mae cynllunio ar gyfer pontio mewn llythrennedd a rhifedd wedi gwella dros y blynyddoedd diwethaf. Serch hynny, dim ond lleiafrif o ysgolion sy'n cynllunio cynlluniau gwaith cyffredin mewn Cymraeg a Saesneg ar gyfer disgyblion 7 i 14 oed. Nid yw gweithgareddau pontio yn canolbwyntio'n ddigonol ar rifedd, a dim ond ychydig o ysgolion cynradd sy'n trosglwyddo gwybodaeth am gyflawniadau disgyblion mewn rhifedd, gan gynnwys ar gyfer disgyblion sy'n dilyn rhaglenni ymyrraeth.

14 Mae'r rhan fwyaf o glystyrau ysgol, yn enwedig mewn ardaloedd Saesneg eu hiaith, yn nodi'r angen am fynd i'r afael â'r diffyg dilyniant mewn medrau Cymraeg disgyblion pan fyddant yn symud o ysgol gynradd i ysgol uwchradd. Mae'r rhan fwyaf o gynlluniau pontio'n cyfeirio'n benodol at yr angen am ddarparu mwy o hyfforddiant a hyfforddiant gwell i athrawon ar sut i asesu safonau mewn Cymraeg, ac mewn Cymraeg ail iaith yn benodol. Cynhelir asesiadau statudol o Gymraeg ail iaith ym Mlwyddyn 6 am y tro cyntaf yn ystod tymor yr haf 2010. Ar hyn o bryd, dim ond tua hanner o ysgolion cynradd sydd wedi gwneud trefniadau i gynnwys y pwnc hwn mewn cyfarfodydd cymedroli a safoni yn yr ysgol, ac nid oes gan y rhan fwyaf o ysgolion gynlluniau i'w gynnwys mewn trefniadau clwstwr.

15 Mae llawer o ysgolion uwchradd yn addasu eu cwricwlwm Blwyddyn 7 fel bod profiadau dysgu disgyblion yn adlewyrchu profiadau ysgol gynradd yn agosach, lle bydd cwricwlwm thematig neu gwricwlwm ar sail prosiect yn cyfuno nifer o bynciau yn yr un wers. Mae athrawon cynradd ac uwchradd yn eu clystyrau ysgol bellach yn

cydweithio'n llawer agosach i gynllunio cynlluniau gwaith ac arsylwi ar ei gilydd yn addysgu. Mae defnyddio 'unedau pontio', lle caiff themâu neu brosiectau a gychwynnwyd ym Mlwyddyn 6 yn cael eu cwblhau ym Mlwyddyn 7, yn cael eu defnyddio'n fwy aml erbyn hyn i ddatblygu cysondeb mewn addysgu a dysgu ar draws cyfnodau.

16 At ei gilydd, mae clystyrau ysgol wedi ymateb yn gadarnhaol i argymhelliad a wnaed yn adroddiad blaenorol Estyn ar bontio, sef bod ysgolion yn rhoi mwy o ystyriaeth i farn disgyblion a llywodraethwyr wrth adolygu cynlluniau pontio. Fodd bynnag, nid yw rhieni neu ofalwyr o hyd yn cael eu cynnwys yn ddigonol yn yr adolygiadau hyn o gynlluniau pontio.

17 Gall y rhan fwyaf o'r trefniadau a gyflwynwyd drwy'r cynllun pontio ac a ategwyd gan y grant pontio gael eu cynnal pan fydd y grant wedi dod i ben. Mae llawer o glystyrau wedi cytuno i gronni adnoddau, fel arian o'r Gronfa Ysgolion Gwell, i sicrhau bod cynllunio ar gyfer pontio yn gallu dod yn nodwedd barhaol o drefniadau partneriaeth. Fodd bynnag, mae rhai ysgolion o'r farn y bydd rhoi trefniadau 'prin gyflenwi' ar waith o Fedi 2009 ymlaen yn golygu y bydd athrawon yn ei chael yn fwy anodd mynychu cyfarfodydd clystyrau ysgol.

18 Mae awdurdodau lleol yn hwyluswyr allweddol o ran rhannu arfer dda ar draws clystyrau ysgol. Mae awdurdodau lleol yn glir ynghylch eu dull o gefnogi ysgolion ac mae strategaethau priodol ar waith i wella effeithiolrwydd trefniadau pontio ymhellach. Mae cynigion awdurdodau lleol yn canolbwyntio ar y meysydd datblygu allweddol a gyflwynwyd yn Canllawiau ar Grant Llywodraeth Cynulliad Cymru i Drosglwyddo rhwng Cyfnod Allweddol 2 a 3: Cylchlythyr 31/2006. Mae cymorth gan awdurdodau lleol yn cael ei barchu gan ysgolion yn elfen bwysig o helpu athrawon cynradd ac uwchradd i wella trefniadau pontio.

19 Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi sefydlu grwpiau ffocws addas, dan arweiniad swyddog, i fonitro effeithiolrwydd gweithredu cynlluniau pontio ac i sicrhau bod arfer orau yn cael ei rhannu ledled yr awdurdod lleol. Mae ychydig o awdurdodau lleol hefyd yn defnyddio ymgynghorwyr allanol i gyfrannu at y broses arfarnu ac mae hyn yn ychwanegu at wrthrychedd yr arfarniad. Hefyd, mae diwrnodau hyfforddiant staff a chynadleddau traws-cyfnod wedi cael eu defnyddio'n effeithiol i ganolbwyntio ar brofiadau'r clystyrau ac i ledaenu arfer dda.

20 Mae awdurdodau lleol yn ymateb yn gadarnhaol i'r argymhellion a wnaed yn adroddiad blaenorol Estyn ar bontio. Ym mhob awdurdod lleol, mae trefniadau pontio yn parhau'n flaenoriaeth uchel mewn cynlluniau gwella ysgolion ar gyfer yr adeg pan fydd cyllid grant yn dod i ben. Mae awdurdodau lleol yn monitro ansawdd ac effaith cynlluniau pontio yn fwy trylwyr nag o'r blaen ac yn rhoi cymorth i glystyrau drwy hyfforddiant perthnasol a, lle bo modd, trwy ddyrannu cyllid ychwanegol.

## Argymhellion

**I wella pontio rhwng cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3:**

Dylai ysgolion:

A1 adeiladu ar waith partneriaeth a chlwstwr i helpu pob dysgwyr i gyflawni safonau gwell yn y pynciau craidd ac mewn Cymraeg ail iaith;

A2 codi safonau mewn llythrennedd a rhifedd drwy ddefnyddio gwybodaeth am gyflawniadau disgyblion yn well pan fyddant yn trosglwyddo i ysgol uwchradd, yn enwedig yn achos disgyblion sy'n dilyn rhaglenni ymyrraeth;

A3 sicrhau cysondeb gwell mewn asesiadau athrawon ac yn benodol mewn cymedroli a safoni gwaith disgyblion ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2; ac

A4 arfarnu trefniadau pontio'n well drwy gael barn rhieni neu ofalwyr a defnyddio'r canlyniadau i lywio cynlluniau hunanarfarnu a datblygu.

Dylai awdurdodau lleol:

A5 sicrhau bod trefniadau pontio yn codi'r safonau a gyflawnir gan bob disgybl, gan gynnwys y rhai mwy galluog;

A6 cynnig hyfforddiant gwell i athrawon ar wella parhad a dilyniant yn natblygiad Cymraeg disgyblion; a

A7 defnyddio trefniadau pontio i wella cysondeb asesiadau athrawon.

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

A8 barhau i gynorthwyo clystyrau ysgol i adolygu eu cynlluniau pontio gwreiddiol ac i gryfhau meysydd pontio allweddol.

## Arfarniad o effaith cynlluniau pontio ar ysgolion

### Rheoli a chydlynu pontio

21 Dywed adroddiad cylch gwaith Estyn ar 'Effaith Cynlluniau Trosglwyddo' (2008):

*"…yn y pum mlynedd diwethaf, mae llawer o ysgolion cynradd ac uwchradd wedi gweithio ar fentrau ar y cyd i wella agweddau ar y cwricwlwm, dysgu ac asesu ar draws cyfnodau allweddol 2 a 3. O ganlyniad, roedd llawer o ysgolion eisoes wedi bodloni rhai o ofynion y cynlluniau trosglwyddo cyn i gynlluniau trosglwyddo ddod yn ofyniad statudol ym mis Medi 2007."*

Mae rheoli a chydlynu trefniadau pontio yn cael eu hymgorffori fwyfwy mewn clystyrau. Barnodd y 35 o arolygiadau Adran 28 o ysgolion uwchradd a gynhaliwyd yn ystod blwyddyn academaidd 2008-2009 fod holl drefniadau pontio ysgolion o leiaf yn effeithiol, a barnwyd bod cysylltiadau pontio rhagorol gan chwe ysgol uwchradd â'u hysgolion cynradd partner. Mae'r dyfyniadau canlynol yn enghreifftiau o'r hyn y barnwyd eu bod yn arbennig o nodedig:

- "Er mwyn helpu disgyblion i ymgynefino ag amgylchedd dysgu'r ysgol uwchradd a mynd i'r afael â'r Cwricwlwm Cenedlaethol newydd sydd wedi'i seilio ar fedrau, datblygwyd dull arloesol o gyflwyno cwricwlwm B7. Mae hyn yn galluogi i'r un athro addysgu sawl pwnc i'r disgyblion." *(Ysgol Gyfun Ynysawdre – paragraff 112)*

- "Yn ogystal â chyfnodau preswyl, mae disgyblion B6 yn ymweld am un diwrnod bob tymor cyn trosglwyddo. Mae disgyblion B7 yn derbyn tri diwrnod o anwytho ac wythnos yng Ngwersyll yr Urdd yn Llangrannog ar ôl hanner tymor yr hydref. Mae disgyblion B7 yn gwerthuso'r trefniadau pontio." *(Ysgol Gyfun Bro Morgannwg – paragraff 136)*

- "O ganlyniad i drefniadau gweithio clwstwr a gynlluniwyd, cafodd cwricwlwm B5-B8 ei fapio gan gynnwys pob adran o fewn yr ysgol. Mae'r rhaglen waith wedi ei hadeiladu i fewn i bob cynllun gwaith adrannol." *(Ysgol Uwchradd Cyfarthfa – paragraff 134)*

22 Mae cynlluniau pontio yn cyflwyno prif gyfrifoldebau a rolau yn glir i arweinwyr o ysgolion yn y clwstwr. Fel arfer, y pennaeth neu reolwr uwch yn yr ysgol uwchradd sy'n ymgymryd â'r rôl arweiniol. Hefyd, mae'r cynlluniau'n amlinellu sut bydd yr ysgolion yn cydweithio i gyflawni'r nodau cytûn ac maent yn darparu cynlluniau gweithredu manwl gyda therfynau amser, meini prawf llwyddiant, targedau a threfniadau monitro priodol.

23 Yn ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae disgyblion a llywodraethwyr yn cael eu cynnwys yn yr adolygiad a'r arfarniad o gynlluniau pontio. Mae'r cynllun pontio'n cael ei gymeradwyo'n flynyddol gan lywodraethwyr ac mae cyrff llywodraethol yr ysgolion partner yn ystyried ac yn cytuno ar argymhellion o'r adolygiad. Ymgynghorir â disgyblion drwy gyngor yr ysgol ac, yn aml, caiff cynlluniau eu diwygio i gynnwys syniadau creadigol a gynigiwyd ganddynt. Mewn un awdurdod lleol, mae cynhadledd 'llais y disgybl' yn yr arfaeth. Bydd hyn yn galluogi cynghorau ysgol ar draws clystyrau i gydweithio'n agosach ar faterion sy'n gysylltiedig â phontio.

24 Prin yw'r ysgolion sy'n rhoi digon o ystyriaeth i farn rhieni neu ofalwyr drwy gyfrwng holiaduron pan fyddant yn arfarnu effeithiolrwydd disgyblion yn pontio o ysgolion cynradd i ysgolion uwchradd.

**Asesu, monitro ac olrhain**

25 Mae awdurdodau lleol ac ysgolion yn dechrau mynd i'r afael â'r argymhelliad a wnaed yn adroddiad Estyn a gyhoeddwyd yn 2008, sef y dylai clystyrau sicrhau bod cynlluniau yn cael eu harfarnu gyda chyfeiriad at welliannau mewn safonau cyflawniad disgyblion. Mae'r cynlluniau pontio a'r trefniadau cyffredin ar gyfer cymedroli a safoni asesiadau disgyblion yn sicrhau bod ysgolion bellach yn meddu ar ddealltwriaeth gliriach o alluoedd a gwybodaeth flaenorol disgyblion pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol. Er hynny, mae gwaith i'w wneud o hyd i wella medrau athrawon o ran asesu. Mae adroddiad Estyn ar 'Arfarniad o'r trefniadau i sicrhau cysondeb asesiadau gan athrawon yn y pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3' (Mawrth 2010) yn datgan:
http://estyn.co.uk/ThematicReports/cy_Remit_4_Core_subject_KS2_and_KS3_March_2010.pdf

*"Mae athrawon yn pryderu nad yw'r trefniadau cyfredol ar gyfer asesiadau athrawon yn gweithio cystal ag y dylent oherwydd bod athrawon yn CA2 ac CA3 yn parhau i ddehongli 'lefelau' yn wahanol. Mae llawer o glystyrau ysgol wedi nodi gwaith pellach y mae angen ei wneud cyn iddynt fod â digon o hyder yng nghywirdeb a chysondeb yr asesiadau athrawon ym mhynciau craidd y CC."*

26 Mae'r adroddiad hefyd yn datgan bod y systemau cadarnach sydd ar waith yng nghyfnod allweddol 3 yn sicrhau asesiadau athrawon mwy cywir a dibynadwy nag yng nghyfnod allweddol 2.

27 Rhwng cyfnodau allweddol 2 a 3, mae llawer o drefniadau pontio sefydledig erbyn hyn a ddatblygwyd dros y blynyddoedd diwethaf i wella profiadau dysgu disgyblion. Er enghraifft, mewn nifer o ysgolion, mae disgyblion Blwyddyn 6 cael diwrnod neu wythnos flasu lle cânt eu cyflwyno i'r ffordd y mae ysgolion uwchradd yn gweithredu. Mae'r trefniadau pontio ar gyfer safoni asesiadau disgyblion er mwyn galluogi ysgolion cynradd ac uwchradd i ddod i gytundeb cyffredin ar lefelau cyrhaeddiad disgyblion mewn asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 yn llai effeithiol.

28 Nododd y rhan fwyaf o grwpiau clwstwr, yn enwedig mewn ardaloedd Saesneg eu hiaith, fod angen mynd i'r afael â'r diffyg dilyniant yn natblygiad medrau iaith Gymraeg disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o gynlluniau pontio'n cynnwys camau i wella asesu safonau disgyblion mewn Cymraeg, ac mewn Cymraeg ail iaith yn benodol. Cynhelir asesiadau statudol o Gymraeg ail iaith yng nghyfnod allweddol 2 am y tro cyntaf yn ystod haf 2010. Dim ond tua hanner o ysgolion cynradd sydd wedi gwneud trefniadau i gynnwys y pwnc hwn mewn cyfarfodydd cymedroli a safoni ysgol ac nid oes gan y rhan fwyaf o ysgolion unrhyw gynlluniau i'w gynnwys mewn trefniadau clwstwr.

29 Mewn nifer o grwpiau clwstwr, mae pennaeth adran Gymraeg yr ysgol uwchradd yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr ysgol gynradd ar y cynllun pontio er mwyn

sicrhau parhad a dilyniant yn natblygiad Cymraeg disgyblion. Mewn un clwstwr, mae ‘grŵp trochi’ o ddisgyblion Blwyddyn 6 yn mynd i’r ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn ystod tymor yr haf am addysgu arbenigol yn y Gymraeg. Mewn ysgolion eraill, mae materion Cymraeg yn destun diwrnodau sefydlu ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6 ac maent yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau sy’n seiliedig ar y Gymraeg neu sydd â thema Cymraeg. Mae’r gweithgareddau hyn yn galluogi’r ysgol uwchradd i nodi lefelau ac anghenion ieithyddol y darpar ddisgyblion Blwyddyn 7.

30 Mae gweithdrefnau ar waith gan y rhan fwyaf o ysgolion i dargedu cymorth ar ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn arbennig dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig. Rhoddir cyfle i ddisgyblion â datganiadau gyfarfod â’u hathro cynorthwyol neu’u cynorthwyydd addysgu cyn dechrau yn yr ysgol uwchradd. Mae’r rhan fwyaf o benaethiaid uwchradd yn ymweld â’r ysgolion cynradd yn y clwstwr, gyda Phennaeth Blwyddyn 7 yn aml. Mae’r cydlynydd anghenion addysgol arbennig, ac weithiau’r swyddog presenoldeb, hefyd yn cynnal ymweliadau er mwyn trafod materion perthnasol yn ymwneud â bywyd ysgol gyda disgyblion i helpu i leddfu unrhyw ofnau neu bryderon a mynd i’r afael ag anghenion unigol. Mae un ysgol yn mynd i’r afael ag anghenion penodol disgyblion drwy gwrs llythrennedd a rhifedd pythefnos sy’n cael ei gyflwyno tua diwedd tymor yr haf. Hefyd, mae mwy o ysgolion yn defnyddio rhaglenni TG priodol i drosglwyddo gwybodaeth am anghenion dysgu ychwanegol disgyblion o’r ysgol gynradd i’r ysgol uwchradd.

31 Bu gwelliant yn y cynllunio ar gyfer pontio mewn llythrennedd a rhifedd rhwng ysgolion uwchradd a’u hysgolion cynradd partner dros y blynyddoedd diwethaf. Mae mwyafrif y clystyrau yn trefnu gweithgareddau ar y cyd sydd wedi’u cynllunio i wella dilyniant mewn Saesneg, Cymraeg a mathemateg o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3. Fodd bynnag, dim ond lleiafrif o ysgolion sy’n cynllunio cynlluniau gwaith cyffredin mewn Cymraeg a Saesneg i ddisgyblion rhwng 7 a 14 oed, er mwyn gwneud yn siŵr bod yr addysgu bob amser wedi’i anelu ar y lefel gywir a bod gwaith yn ddilyniadol ac yn heriol. Mewn mathemateg, nid yw gweithgareddau pontio yn canolbwyntio’n ddigon ar rifedd a dim ond ychydig o ysgolion cynradd sy’n trosglwyddo gwybodaeth am gyflawniadau disgyblion mewn rhifedd.

32 Mewn nifer gynyddol o glystyrau ysgol, mae lefelau cyrhaeddiad disgyblion yn cael eu monitro bob tymor ac mae’r arfer asesu yn dod yn fwy cyson ar draws Blwyddyn 6 a 7. Mae cynlluniau pontio yn aml yn dangos bod gwerth yn cael ei roi ar bresenoldeb, ymddygiad a hunan-barch yn ogystal â chyrhaeddiad academaidd. Mae’r rhan fwyaf o ysgolion yn dangos cynnydd yng nghyrhaeddiad disgyblion, yn enwedig yn y pynciau craidd, ers cyflwyno’r cynlluniau pontio. Mae canlyniadau asesiadau athrawon y Cwricwlwm Cenedlaethol rhwng 2006 a 2009 yn dangos cynnydd bychan ond cyson yng nghyfran y disgyblion sy’n cyflawni’r lefel ddisgwyliedig mewn asesiadau athrawon yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3. Serch hynny, mae’n rhy gynnar o hyd i farnu a yw’r dystiolaeth hon o berfformiad yn derfynol, gan mai ar ddiwedd y flwyddyn academaidd bresennol, 2009-2010, y digwydd hynny, pan fydd clystyrau’n ymgymryd ag adolygiad ac arfarniad llawn o’r cynllun tair blynedd. Bydd yr arfarniad hwn yn cynnwys dadansoddiad o ddata cyrhaeddiad ynghyd ag amgyffredion disgyblion a rhieni. Bydd y garfan gyntaf o ddisgyblion a gefnogwyd gan y cynllun pontio (Blwyddyn 6 yn 2007-2008) yn cael ei hasesu gan eu hathrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 yn 2011.

### Cynllunio'r cwricwlwm

33 Mae llawer o ysgolion uwchradd wedi addasu eu cwricwlwm ym Mlwyddyn 7 trwy gyfuno nifer o bynciau gwahanol i adlewyrchu'r dull thematig neu'r dull prosiect sy'n cael ei ddefnyddio yn y rhan fwyaf o ysgolion cynradd. Fel hyn, bydd nifer o themâu yn cael eu hastudio yn ystod y flwyddyn a bydd disgyblion yn datblygu medrau personol, dysgu ac allweddol drwyddynt. Mae llawer o'r ysgolion sydd wedi mabwysiadu cwricwlwm thematig o'r fath ar gyfer Blwyddyn 7 wedi trefnu'r dysgu o gwmpas Saesneg neu bynciau'r dyniaethau. Yn aml, bydd y cwricwlwm wedi'i seilio ar ddulliau fel datblygu medrau beirniadol, medrau meddwl penodol a strategaethau asesu ar gyfer dysgu.

34 Mewn mwyafrif o ysgolion, mae perthynas waith agosach rhwng athrawon cynradd ac uwchradd. Mae hyn yn cynnwys rhannu cynlluniau gwaith er mwyn osgoi dyblygu ac ailadrodd gwaith i ddisgyblion ym Mlwyddyn 7. Mae athrawon ysgol uwchradd yn arsylwi ar eu cydweithwyr cynradd ac, mewn ambell ysgol, maent yn addysgu yn y cyfnod cynradd. Er enghraifft, mae un ysgol yn gwahodd athrawon Blwyddyn 6 i graffu ar waith Blwyddyn 7 ar ddiwedd tymor yr hydref er mwyn nodi cynnydd da ac unrhyw dangyflawni. Mae ysgol arall wedi cyflogi dau athro cynradd i gynorthwyo dau ddosbarth Blwyddyn 7.

35 Mae 'unedau pontio' yn cael eu defnyddio'n helaeth gan lawer o ysgolion i ddatblygu cysondeb mewn addysgu a dysgu ar draws cyfnodau. Mewn ambell achos, bydd hyn yn cynnwys athrawon uwchradd yn ymweld ag ysgolion cynradd i addysgu pynciau newydd, fel iaith dramor fodern, neu i ddatblygu medrau penodol neu ddefnyddio strategaethau asesu ar gyfer dysgu. Mewn nifer o ysgolion uwchradd, mae athrawon ieithoedd tramor modern wedi addysgu rhai gwersi yn yr ysgolion cynradd partner.

36 Mewn llawer o ysgolion, mae rôl tiwtor dosbarth Blwyddyn 7 wedi ehangu yn sgil arferion pontio. Yn aml, bydd y tiwtor Blwyddyn 7 yn addysgu ei grŵp dosbarth gallu cymysg am nifer gynyddol o wersi, naill ai drwy gwricwlwm thematig neu gwricwlwm sy'n canolbwyntio ar fedrau. Mae'r ysgolion uwchradd hyn wedi defnyddio'r model cynradd, sef cael llai o athrawon sy'n dod i adnabod eu disgyblion Blwyddyn 7 yn dda iawn. Mewn un ysgol, crëwyd grwpiau dosbarth Blwyddyn 7 trwy gyfuno disgyblion o ddwy ysgol gynradd. Mae tîm tiwtoriaid Blwyddyn 7 yn addysgu yn yr ysgolion cynradd ac yn cyfarfod â rhieni i feithrin perthynas cyn i'r disgyblion drosglwyddo i'r ysgol uwchradd.

### Cynnal arfer orau

37 Mae cynllunio ar gyfer pontio wedi gwneud gwaith ysgolion cynradd ac uwchradd yn fwy effeithiol oherwydd:

- dealltwriaeth well o'u gwaith ei gilydd mewn clystyrau ysgol;
- datblygu gweithdrefnau cymedroli a safoni ar y cyd i wella cysondeb a dibynadwyedd asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3;
- defnyddio unedau pontio a chydgynllunio'r cwricwlwm i hwyluso pontio'r disgyblion o ysgol gynradd i ysgol uwchradd;

- defnyddio TG i olrhain cynnydd disgyblion o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3; a

- chyfathrebu gwell â llywodraethwyr, rhieni neu ofalwyr mewn clystyrau.

38 Mae ysgolion yn gwerthfawrogi'r manteision hyn ac mae llawer o glystyrau hefyd wedi cytuno i gyfuno Cyllid Gwella Ysgolion yn y dyfodol er mwyn cynnal cyflwyno'r cynlluniau pontio. Mynegwyd bod cyfyngiadau ariannol a phwysau baich gwaith yn bryder mewn rhai ysgolion. Maent yn honni y bydd rhoi trefniadau 'prin gyflenwi' ar waith o Fedi 2009 ymlaen yn golygu y bydd athrawon yn ei chael yn fwy anodd mynychu cyfarfodydd clwstwr ysgol a sesiynau hyfforddi asesu. Serch hynny, mae cydnabyddiaeth hefyd fod llawer o waith pontio'n cael ei wneud ar ddiwrnodau cau ar y cyd, ac mae hyn yn cynnig gwerth da am arian.

## Arfaniad o effaith y grant pontio

### Strategaethau awdurdodau lleol

39 Mae gan y mwyafrif o awdurdodau lleol strategaethau ar gyfer datblygu a lledaenu arfer dda. Mae’r arfer orau’n cynnwys:

- penodi swyddog sydd â chyfrifoldeb am bontio;
- sefydlu grŵp llywio pontio o benaethiaid cynradd ac uwchradd;
- hwyluso cyfarfodydd grwpiau clwstwr;
- trefnu cynadleddau pontio traws-cyfnod; a
- darparu hyfforddiant ar gyfer cymedroli a safoni pynciau yng nghyfnodau allweddol 2 a 3

40 Mae cynigion awdurdodau lleol yn canolbwyntio’n glir ar un neu fwy o’r meysydd datblygu allweddol a ddisgrifiwyd yn nogfen Cynulliad Cenedlaethol Cymru ‘Canllawiau ar Grant Pontio Llywodraeth Cynulliad Cymru i Drosglwyddo rhwng Cyfnod Allweddol 2 a 3’ (Cylchlythyr 31/2006). Mae’r enghreifftiau sy’n dilyn yn dangos yr amrywiaeth o brosiectau sy’n cael eu cynnal gan y grant.

### Cydgynllunio’r cwricwlwm

41 Mae llawer o awdurdodau lleol yn annog ysgolion i ddefnyddio’r cyfleoedd a gynigir drwy drefniadau pontio i ddatblygu cydgynlluniau gwaith o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3 er mwyn helpu disgyblion i wneud cynnydd cynt yn eu gwybodaeth, eu medrau a’u dealltwriaeth wedi iddynt gyrraedd Blwyddyn 7.

42 Er enghraifft, caiff y Cwricwlwm Cymreig ei ddefnyddio gan nifer o awdurdodau lleol fel canolbwynt ar gyfer gwaith pontio. Mae codi ymwybyddiaeth o’r Gymraeg ymhlith disgyblion, rhieni ac athrawon, mewn clystyrau ysgol ac ar draws clystyrau, yn helpu sicrhau bod disgyblion yn gallu dilyn y llwybr mwyaf addas wrth iddynt bontio i’r ysgol uwchradd. Mae un awdurdod lleol wedi llunio dogfen ganllaw a DVD sy’n cynnig deunyddiau enghreifftiol ar y Cwricwlwm Cymreig i sicrhau bod disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 yn parhau i wneud cynnydd yn eu dysgu yn yr agwedd hon.

43 Mae’r celfyddydau perfformio’n cael eu defnyddio’n aml gan awdurdod lleol fel canolbwynt ar gyfer cynllunio’r cwricwlwm. Caiff disgyblion cyfnod allweddol 2 a 3 ar draws clystyrau eu dwyn ynghyd i gymryd rhan mewn perfformiadau cerddoriaeth a theatr fel eu bod yn cael profiad o ddulliau cyffredin o weithio. Mae hyn yn helpu datblygu medrau pwnc penodol disgyblion a hefyd eu medr allweddol ehangach, sef gweithio gydag eraill.

44 Mae parhad mewn addysgu a dysgu TGCh a datblygu cysondeb ar draws y clwstwr drwy gydgynllunio’r cwricwlwm hefyd yn ganolbwynt ar gyfer gwaith mewn nifer o awdurdodau lleol.

## Parhad mewn addysgu a dysgu

45 Mae trefniadau pontio wedi datblygu'n dda dros y blynyddoedd diwethaf ac maent wedi arwain at arferion gwaith llawer agosach rhwng athrawon yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 7 mewn rhai ysgolion uwchradd yn aros yn yr un ystafell ddosbarth, yn debyg i'r arfer mewn ysgolion cynradd, yn hytrach na newid ystafelloedd dosbarth ar gyfer pob pwnc. Hefyd, mae enghreifftiau o awdurdodau lleol yn defnyddio'r grant i wella parhad dysgu ar gyfer disgyblion trwy drefnu bod athrawon ym Mlwyddyn 6 a Blwyddyn 7 mewn clwstwr yn cynllunio gwersi ac yn cyflwyno'r rhain gyda'i gilydd. Bydd yr athrawon yn canolbwyntio ar strategaethau cytûn a bydd amser pwrpasol ganddynt wedi hynny i drafod y materion pedagogaidd perthnasol. Mae hyfforddiant mewn swydd ar sail clystyrau o ysgolion yn cael ei ddefnyddio hefyd i rannu strategaethau addysgu effeithiol ac arfer dda ar draws cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3.

46 Mewn un awdurdod lleol, mae rhaglen hyfforddi cymheiriaid ar gyfer athrawon disgyblion Blwyddyn 6 a Blwyddyn 7 yn y clwstwr ysgol yn helpu hyrwyddo'r gwaith o fabwysiadu arddulliau addysgu mwy effeithiol, ac i wella medrau asesu ar gyfer dysgu. Mae'r athrawon penodedig yn cyfarfod i drafod strategaethau ac i gynnal arsylwadau ar wersi cymheiriaid.

## Asesiadau athrawon

47 Mae llawer o awdurdodau lleol yn defnyddio'r grant i ganolbwyntio ar gryfhau systemau safoni i sicrhau mwy o gysondeb yn asesiadau athrawon y Cwricwlwm Cenedlaethol. Caiff cyfarfodydd mewn clystyrau o ysgolion ar gyfer athrawon cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3, yn yr arfer orau, eu cynnal yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn i drafod, safoni a chytuno ar lefelau priodol ar sail portffolios o waith disgyblion. Mae'r arfer hon yn helpu datblygu cysondeb o ran disgwyliadau am safonau disgyblion ar draws yr ysgolion clwstwr. Mae'r cyfarfodydd hyn yn allweddol ar gyfer mynd i'r afael â'r amgyffredion gwahanol sy'n bodoli rhwng athrawon yng nghyfnod allweddol 2 a 3 ynghylch yr hyn sy'n gyfystyr â safonau priodol ar lefelau gwahanol.

48 Mewn un awdurdod lleol, mae gan bennaeth ar secondiad gyfrifoldeb am drefnu, monitro ac arfarnu'r gweithgareddau safoni a phontio. Mewn awdurdodau lleol eraill, lluniwyd 'llyfrynnau pontio' perthnasol i sicrhau cysondeb o ran asesu a monitro cynnydd disgyblion.

## Rhannu gwybodaeth am bresenoldeb ac ymddygiad disgyblion

49 Mae un awdurdod lleol wedi gweithio'n agos gydag ymgynghorwyr allanol i wella olrhain a thargedu cymorth at ddisgyblion sydd â phroblemau ymddygiad neu bresenoldeb. Mae hyfforddi cynorthwywyr cymorth addysgu mewn cymorth ymddygiad a defnyddio mentoriaid neu gyfeillion Blwyddyn 9 yn peri gostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n cael eu cyfeirio o ganlyniad i faterion ymddygiad neu bresenoldeb.

**Bodloni anghenion personol a chymdeithasol disgyblion**

50 Mewn rhai ysgolion, caiff myfyrwyr Blwyddyn 12 eu cyflwyno fel ‘cyfeillion’ neu ‘fentoriaid’ i ddisgyblion Blwyddyn 6 yn ystod tymor yr haf. Mae’r myfyrwyr yn cael eu hyfforddi’n fentoriaid ac maent yn rhoi cymorth gwerthfawr i ddisgyblion agored i niwed ym Mlwyddyn 7. Mae’r hyfforddiant yn galluogi’r mentoriaid hyn i ddatblygu’r medrau personol a chymdeithasol sy’n angenrheidiol i allu cynorthwyo disgyblion iau a’u helpu nhw i feithrin cyfeillgarwch sy’n sicrhau eu bod yn cynefino’n gynt â’u hamgylcheddau dysgu newydd. O ganlyniad i’r hyfforddiant, mae nifer o fyfyrwyr wedi cael achrediad gan Rwydwaith y Coleg Agored.

51 Mae un awdurdod lleol yn defnyddio’r grant i ganolbwyntio ar ddatblygu anghenion personol a chymdeithasol disgyblion drwy ddigwyddiad tridiau sy’n cynnwys gweithgareddau fel chwaraeon, drama, datrys problemau a chelf. Mae’r profiadau hyn yn galluogi disgyblion Blwyddyn 6 a Blwyddyn 7 i weithio ynghyd a datblygu eu medrau allweddol. Mae disgyblion Blwyddyn 7 yn cael eu defnyddio’n llysgenhadon ac yn fodelau ymddygiad ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6 ac mae disgyblion yn cofnodi’u profiadau yn eu llyfryn pontio ysgol.

**Bodloni anghenion dysgu disgyblion unigol**

52 Mae un awdurdod lleol yn defnyddio cynllun Agwedd y Disgybl tuag at Ei Hunan a’r Ysgol (PASS) i gasglu gwybodaeth am ddisgyblion unigol fel bod modd targedu adnoddau perthnasol i’w cynorthwyo nhw drwy’r pontio.

53 Lleihau’r bwlch mewn cyflawniad rhwng grwpiau o ddisgyblion, yn enwedig rhwng bechgyn a merched, yw’r ffocws i un awdurdod lleol. Caiff cyllid grant ei ddefnyddio i dalu ymgynghorwyr allanol i roi cyngor ar strategaethau llwyddiannus o atal dadrithiad yn ystod y pontio o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7. Yn dilyn hynny, mae’r arfer orau’n cael ei lledaenu ar draws yr awdurdod lleol i sicrhau bod yr arbenigedd ym mhob clwstwr yn effeithio ar arfer pob athro.

54 Mae awdurdod lleol arall yn gwella’r cymorth ar gyfer gweithgareddau y tu allan i oriau ysgol. Ar y cyd â’i ysgolion bro, caiff gweithgareddau eu cysylltu â phrosiectau sy’n mynd ati i hyrwyddo cyflawniad bechgyn yn ystod y pontio o ysgol gynradd i ysgol uwchradd.

**Trefniadau arfarnu awdurdodau lleol**

55 Ar y cychwyn, roedd diffyg manylder yn y ffurflenni arfarnu gorffenedig yr oedd awdurdodau lleol yn gofyn amdanynt fel rhan o arfarnu eu prosiectau grantiau pontio, ac roeddent yn darparu crynodeb yn unig o’r trefniadau ar gyfer arfarnu prosiectau. Erbyn hyn, ychwanegwyd at y ffurflenni trwy ofyniad am gael gwybodaeth fanylach drwy gwblhau holiadur, cyflwyno adroddiadau arfarnu perthnasol a gwybodaeth a gaiff ei darparu yn ystod ymweliadau â sampl o awdurdodau lleol a chlystyrau ysgol.

56 Mae mwyafrif helaeth yr awdurdodau lleol wedi sefydlu grwpiau ffocws neu grwpiau llywio ar gyfer pontio, sy’n cael eu harwain fel arfer gan swyddog o’r tîm gwella ysgolion. Yn gyffredinol, mae’r grwpiau hyn yn effeithiol yn monitro gweithredu cynlluniau clwstwr a sicrhau bod arfer orau’n cael ei rhannu ar draws yr holl glystyrau

ysgol yn yr awdurdod lleol. Mae argymhellion am ddatblygiadau pellach yn cael eu cynnig gan y grwpiau hyn hefyd.

57 Mae’r trefniant arfarnu hefyd yn cynnwys cyfarfodydd o gydlynwyr clwstwr a phenaethiaid bob hanner tymor i rannu arfer dda ac arfarnu cynnydd yn y clwstwr. Yn aml, bydd y cyfarfodydd hyn yn cael eu cadeirio gan swyddog cyswllt yr awdurdod lleol a chaiff adroddiad hunanarfarnu clwstwr ei gynhyrchu. Mae adroddiad hunanarfarnu’r clwstwr yn cael ei drosglwyddo i’r awdurdod lleol fel bod pob clwstwr yn gallu elwa ar y canfyddiadau.

58 Mae trefniadau awdurdodau lleol ar gyfer arfarnu effaith prosiectau pontio wedi’u cysylltu’n agos â systemau sydd eisoes ar waith ar gyfer monitro perfformiad ysgolion ar draws yr awdurdod. Mae swyddogion cyswllt yn chwarae rôl allweddol o ran monitro clystyrau perthnasol fel rhan o’u rôl gyswllt ar gyfer ysgolion yn eu hardal. Mae gan glystyrau ysgolion cynradd ac uwchradd gynlluniau cofnodedig sy’n cyflwyno’r camau i’w cymryd a’r canlyniadau disgwyliedig. Mae’r rhain yn cael eu defnyddio gan swyddogion cyswllt i fesur a yw’r gweithgareddau clwstwr yn arwain alinio arfer ystafell ddosbarth Blwyddyn 6 a Blwyddyn 7 yn well.

59 Mae rhai awdurdodau lleol yn defnyddio ymgynghorwyr allanol yn y broses arfarnu. Mae hyn yn ychwanegu at wrthrychedd yr arfarnu ac mae’n annog clystyrau eraill ar draws yr awdurdod i fabwysiadu arfer orau. Mae ymgynghorydd o bob un o’r chwe awdurdod lleol sy’n cydweithio yng Nghonsortiwm De-orllewin a Chanolbarth Cymru (SWAMWAC), yn cyfarfod yn rheolaidd i rannu enghreifftiau o arfer dda a hefyd i fonitro’r defnydd ar wefannau awdurdod lleol. Hefyd, mae SWAMWAC wedi llunio tudalen adolygu cynllun pontio sydd wedi’i seilio ar y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion. Caiff hon ei defnyddio gan ysgolion ac awdurdodau lleol i adolygu cynnydd cynlluniau pontio.

60 Mae arfarniadau eraill ar draws nifer o awdurdodau lleol yn cynnwys diwrnodau hyfforddi. Mae’r rhain yn canolbwyntio ar adolygu cynnydd a nodi a lledaenu arfer orau. Cysondeb mewn methodoleg addysgu yw prif ffocws diwrnodau hyfforddi oherwydd credir bod hyn yn agwedd bwysig ar waith parhaus ar bontio. Mae barn disgyblion Blwyddyn 6 a Blwyddyn 7 a’u rhieni yn bwydo i mewn i’r sesiynau hyn.

### Lledaenu canlyniadau prosiectau arloesol

61 Mae cynadleddau traws-cyfnod, wedi’u trefnu gan awdurdodau lleol, wedi bod yn gyfrwng effeithiol i sicrhau bod arfer effeithiol ac arloesol yn cael ei rhannu ar draws y clystyrau. Mae cyfarfodydd rheolaidd, unwaith bob tymor fel arfer, yn rhoi cyfle i gynrychiolwyr clwstwr rhannu arfer lwyddiannus. Mae rhai enghreifftiau’n cynnwys:

- Dylunio a Thechnoleg – disgyblion Blwyddyn 6 a’u hathro yn gweithio yn yr ysgol uwchradd gyda’r arbenigwr pwnc, gan arwain at lunio llyfryn medrau ar y cyd gan y consortiwm ar gyfer disgyblion Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6.

- Ymweliad preswyl deuddydd ar gyfer pob disgybl Blwyddyn 6 yn y clwstwr gyda staff cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3, yn canolbwyntio ar weithgareddau medrau perthnasol. Yn dilyn y profiad hwn, roedd cyflwyniad a pherfformiad i rieni yn yr ysgol uwchradd.

- Caiff Rhaglen Datblygu Meddwl APADGOS ei defnyddio ar hyd nifer o glystyrau i ddatblygu strategaethau addysgu arloesol ar draws ystod o bynciau yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3. Eisoes, mae tystiolaeth o fesuriadau perfformiad, ynghyd ag adborth gan ddisgyblion, eu bod nawr yn cael mwy o gysondeb mewn addysgu a dysgu drwy gydol y cyfnod pontio.

62 Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi cydlynu diwrnodau hyfforddiant mewn swydd yn effeithiol er mwyn sicrhau bod cyllid grant pontio'n cael ei ddefnyddio'n effeithlon gan ysgolion ac yn galluogi arfer orau i gael ei rhannu ar draws yr awdurdod lleol. Defnydd cyffredin ar ddiwrnodau hyfforddiant mewn swydd oedd rhyddhau athrawon ar gyfer gweithgareddau safoni. Mae'r cyfraniad gan ymgynghorwyr pwnc yr awdurdod lleol wedi helpu gwella cywirdeb asesiadau athrawon. Mae'r sesiynau hyn wedi galluogi clystyrau i ganolbwyntio ar gymedroli a safoni asesiadau athrawon, yn enwedig yn y pynciau craidd, sef Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth. Mae cynhyrchu portffolios tystiolaeth a phroffiliau disgyblion er mwyn amlygu safonau cyson ar draws cyfnodau allweddol 2 a 3, wedi cael eu cynnwys fel canlyniadau'r sesiynau.

63 Mae swyddogion pwnc hefyd yn elwa ar drefniadau rhanbarthol. Mae cyfarfodydd, fel y rhai sy'n cael eu trefnu gan Cynnal, SWAMWAC ac ESIS, yn cael eu defnyddio i ledaenu canlyniadau prosiectau blaengar. Er enghraifft, yn ystod blwyddyn olaf y grant, dyrannwyd £2,700 i ddatblygu gwefan arfer dda mewn pontio gan SWAMWAC. Dyma wefan ddwyieithog sy'n cynnwys nifer o astudiaethau achos yn rhannu arfer dda mewn perthynas â datblygu medrau ar draws cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3.

**Effaith ar addysgu, dysgu a safonau**

64 Gwneir cynnydd da wrth hwyluso pontio disgyblion o ysgolion cynradd i ysgolion uwchradd. Mae holiaduron disgyblion yn dangos bod disgyblion yn cynefino'n gynt ag arferion eu hysgol newydd a'u bod yn teimlo'n fwy sicr. Mae mwy o gynefindra â'r amgylchedd dysgu a'r cwricwlwm, a disgwyliadau uwch ymhlith athrawon, yn cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion ac mae'n cynyddu lefelau eu diddordeb.

65 Mae arfarniadau awdurdodau lleol yn cadarnhau bod gweithgareddau pontio yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu ac addysgu. Mae'r ffocws gwell ar gymedroli a safoni asesiadau athrawon yn arwain at fwy o hyder yn nilysrwydd asesiadau ar draws cyfnod allweddol 2 ac, yn fwy penodol, yng nghyfnod allweddol 3. Mae rhywfaint o gynnydd da wedi cael ei wneud yn datblygu cyd-ddealltwriaeth o safonau ar draws cyfnodau cynradd ac uwchradd. Nid yw athrawon o gyfnod allweddol 2 yn benodol yn hollol hyderus o ran eu dealltwriaeth o nodweddion gwaith disgyblion sy'n arddangos disgrifwyr lefel y Cwricwlwm Cenedlaethol.

66 Mae'n rhy gynnar i arfarnu'n sicr effaith y grant pontio ar y safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni ar ddiwedd cyfnod allweddol 3. Y Flwyddyn 9 bresennol yw'r garfan gyntaf i gael ei thargedu gan y grant ers ei gyflwyno yn 2006. Er hynny, mae nifer o awdurdodau lleol yn adrodd bod gweithgareddau pontio yn cael effaith gadarnhaol ar bontio disgyblion i ysgolion uwchradd. Mae'r farn hon yn cael ei hategu gan y dystiolaeth o arsylwadau gwersi swyddogion awdurdodau lleol. Maent hefyd yn adrodd bod cywirdeb asesiadau athrawon wedi gwella dros y ddwy flynedd

ddiwethaf. Mae'r siart canlynol yn dangos bod canran gynyddol o ddisgyblion ledled Cymru yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig yn y pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 2 (lefel 4) a chyfnod allweddol 3 (lefel 5).

| | | 2006 | 2007 | 2008 | 2009 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfnod Allweddol 2** | | **Lefel 4+ (Lefel 5+)** | **Lefel 4+ (Lefel 5+)** | **Lefel 4+ (Lefel 5+)** | **Lefel 4+ (Lefel 5+)** |
| | Saesneg | 78.6 (30.4) | 78.6 (28.9) | 79.8 (28.5) | 81.0 (28.0) |
| | Cymraeg | 75.5 (25.3) | 72.8 (24.0) | 77 (23.6) | 79.9 (24.0) |
| | Mathemateg | 81.0 (33.5) | 80.4 (30.0) | 81.3 (30.0) | 82.5 (29.4) |
| | Gwyddoniaeth | 85.6 (33.8) | 84.9 (32.4) | 85.6 (31.7) | 86.4 (30.7) |
| | DPC | 74.2 | 74.1 | 75.5 | 77.0 |
| **Cyfnod Allweddol 3** | | **Lefel 5+ (Lefel 6+)** | **Lefel 5+ (Lefel 6+)** | **Lefel 5+ (Lefel 6+)** | **Lefel 5+ (Lefel 6+)** |
| | Saesneg | 67.8 (32.0) | 68.6 (32.9) | 69.5 (32.4) | 70.6 (31.7) |
| | Cymraeg | 71.9 (35.3) | 72.6 (35.6) | 72.3 (35.1) | 75.1 (35.2) |
| | Mathemateg | 71.7 (46.6) | 69.9 (42.3) | 72.5 (43.5) | 73.5 (43.7) |
| | Gwyddoniaeth | 73.3 (39.2) | 70.5 (35.8) | 73.7 (38.1) | 75.6 (38.4) |
| | DPC | 58.2 | 56.7 | 59.6 | 61.3 |

67 Fodd bynnag, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 wedi dirywio yn y pynciau craidd ers 2006. Nid yw cynlluniau pontio eto wedi cael effaith ar dargedu a galluogi disgyblion mwy galluog i gyflawni'r lefelau uwch (lefel 5 yng nghyfnod allweddol 2 a lefel 6 yng nghyfnod allweddol 3).

**Heriau, rhwystrau a chynaliadwyedd**

68 At ei gilydd, mae awdurdodau lleol yn mynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad 'Effaith cynlluniau trosglwyddo' a gyhoeddwyd gan Estyn ym Mehefin 2008. Gwneir cynnydd wrth sicrhau bod proffil uchel i bontio yng ngwaith awdurdodau lleol ar wella ysgolion. Mae canolbwyntio mwy ar gryfhau gwaith partneriaeth rhwng clystyrau o ysgolion er mwyn sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni ei botensial, gan gynnwys y dysgwyr mwy galluog, yn parhau'n darged i ysgolion ac awdurdodau lleol fynd i'r afael ag ef adeg diwygio'u cynlluniau pontio. Mae awdurdodau lleol yn monitro ansawdd ac effaith cynlluniau pontio'n fwy trylwyr nag o'r blaen ac maent yn cynnig cymorth i glystyrau drwy hyfforddiant perthnasol a dyrannu cyllid, lle bo hynny'n bosibl.

69 Mae sicrhau bod athrawon ysgolion cynradd ac uwchradd yn llwyr ymwybodol o'r safonau a ddisgwylir yn y cyfnodau allweddol perthnasol wedi bod yn her i ysgolion ac awdurdodau lleol. Mae dod ag athrawon ynghyd mewn cyfarfodydd safoni clystyrau i gymedroli a safoni gwaith disgyblion wedi helpu, ond dim ond yn ddiweddar y bu angen i athrawon cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 gydweithio i safoni a chymedroli eu hasesiadau athrawon.

70 Her arall i awdurdodau lleol yw sefydlu cysylltiadau cyfartal rhwng ysgolion sy'n cymryd rhan fel bod pob un ohonynt yn teimlo bod perchenogaeth ganddynt ar y cynllun pontio. Mae rhai clystyrau'n fawr iawn ac yn cynnwys 20 ysgol. Hefyd, bu'n rhaid gwneud trefniadau cymhleth mewn rhai awdurdodau i hwyluso'r anghenion pontio i ysgolion cyfrwng Cymraeg, ysgolion ffydd ac ysgolion y mae eu disgyblion yn dod yn bennaf o ddalgylchoedd sydd y tu allan i ardal yr awdurdod.

71 Mae awdurdodau lleol yn ymroi i barhau â threfniadau pontio pan na fydd yr arian grant ar gael mwyach.  Bydd y cysylltiadau rhwng ysgolion clwstwr yn parhau i ddatblygu a bydd hyfforddiant mewn swydd rheolaidd, dan arweiniad yr awdurdod lleol, yn parhau i ganolbwyntio ar bontio.  Mae amgyffredion penaethiaid ynghylch gweithgareddau pontio yn dda, ond mae rhai yn mynegi amheuon ynghylch gallu ysgolion i barhau â rhai agweddau ar y broses bontio, fel penodi cydlynwyr pontio i reoli gweithgareddau clwstwr a'r system bresennol o gyfarfodydd cymedroli a safoni.  Gall gweithredu'r trefniadau 'prin gyflenwi' o Fedi 2009 ymlaen olygu y bydd mynychu cyfarfodydd clystyrau ysgol yn fwy anodd i athrawon.  Serch hynny, mae nifer o glystyrau ar draws Cymru eisoes wedi ymroi i gronni adnoddau er mwyn sicrhau y bydd yr agweddau craidd ar waith pontio yn nodwedd barhaol o'u gwaith yn y dyfodol.

## Geirfa/cyfeiriadau

| | |
|---|---|
| **Adeiladu Pŵer Dysgu** | Rhaglen medrau dysgu a ddatblygwyd gan Guy Claxton ar sail egwyddorion 'dysgu i ddysgu' |
| **Clystyrau Ysgol** | Partneriaeth rhwng ysgol uwchradd a'i hysgolion cynradd bwydo |
| **DEW*i*** | Cyfnewid Data Cymru: Crynodeb o ddata perfformiad ysgolion, o gymharu â chyfartaleddau lleol a chenedlaethol a hefyd perfformiad ysgolion tebyg |
| **Medrau Beirniadol** | Mae'r rhaglen hon yn datblygu medrau ac anianawd dysgu gydol oes sydd â heriau datrys problemau wedi'u cynnwys yn y dull addysgu |
| **PASS** | Agwedd y disgybl tuag at ei hunan a'r ysgol |
| **Unedau Pontio** | Unedau o waith disgyblion sy'n cael eu cychwyn mewn ysgolion cynradd (Blwyddyn 6) a'u cwblhau mewn ysgolion uwchradd (Blwyddyn 7) |
| **Y Gronfa Ysgolion Gwell** | Grant blynyddol i ysgolion ac AALlau sy'n cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru |
| **Ysgol Fro** | Ysgol sy'n cynnig ystod o wasanaethau a gweithgareddau, yn aml y tu hwnt i'r diwrnod ysgol, er mwyn helpu bodloni anghenion ei disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach |

## Ysgolion yr ymwelwyd â nhw

Ysgol Bryn Elian, Conwy
Ysgol Gyfun Bryntirion, Pen-y-bont ar Ogwr
Ysgol Uwchradd Castell Alun, Sir y Fflint
Ysgol Gyfun Brenin Harri'r VIII, Sir Fynwy
Ysgol Lewis Pengam, Caerffili
Ysgol Uwchradd y Drenewydd, Powys
Ysgol Gyfun Olchfa, Abertawe

## Awdurdodau lleol yr ymwelwyd â nhw

Caerffili
Conwy
Sir y Fflint
Sir Fynwy
Powys

## Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg

| | |
|---|---|
| Ray Owen AEM | Arolygydd Arweiniol |
| Susan Roberts AEM | Arolygydd Tîm |
| Peter Roach AY | Arolygydd Tîm |